# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Cartref y Borth**

**Ffordd Berthddu**
**Llanrwst**
**LL26 0HE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 01 Awst 2023

01/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Cartref y Borth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Akari Care Cymru Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Rhagfyr 2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a gânt yng Nghartref y Borth. Mae'r staff gofal yn dangos parch, ac yn ofalgar, ac maent yn diwallu anghenion gofal y bobl mewn modd urddasol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi a'u hannog i ymuno mewn amrywiaeth o weithgareddau un i un neu weithgareddau grŵp. Gall ymwelwyr ddod i weld y bobl a gall y bobl ddewis sut yr hoffent dreulio eu diwrnod.

Mae proses recriwtio ar waith gan gynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol. Caiff y staff hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn fedrus. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ystyried datblygiad y staff mewn perthynas â sesiynau goruchwylio ac arfarnu. Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo rhwng y staff i rannu gwybodaeth berthnasol am lesiant y bobl.

Mae'r adeilad ar ei dir ei hun o fewn pellter agos i amwynderau lleol. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus ac mae mesurau atal heintiau a mesurau iechyd a diogelwch ar waith.

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn garedig, yn gwrtais ac yn ymwybodol o anghenion unigol y bobl. Siaradodd y bobl yn gadarnhaol am y gofal a gânt, a bod eu dymuniadau yn cael eu parchu. Mae'r staff gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd sy'n dangos urddas a pharch.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Gall y bobl ddewis a hoffent dreulio eu diwrnodau ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd gwely neu yn un o'r lolfeydd. Gall y bobl ddewis pryd i godi a mynd i'r gwely a chaiff prydau bwyd eu darparu i gyd-fynd â'u harferion. Nid oedd unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd yn cael eu cynnal ar ddiwrnod yr arolygiad. Nid yw'r cofnodion unigol o weithgareddau yn dangos yn llawn a yw'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu un i un. Gwelsom nifer o ymwelwyr yn y cartref yn ystod y dydd.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth pan fydd ei hangen arnynt. Mae'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac mae swyddfa'r rheolwr wedi'i lleoli ger yr ardaloedd cymunedol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r uwch-reolwyr yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac maent yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda.

Darperir y ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Clywsom y staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae trefniadau ar waith i ddarparu dogfennau dwyieithog i'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth da gan staff cyfeillgar, parchus a gofalgar. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cyfeillgar. Mae'r cynlluniau personol unigol yn cyfeirio at ddiddordebau'r bobl a gwelsom un person yn mwynhau ei hoff gerddoriaeth. Mae cydlynydd gweithgareddau allanol yn trefnu gweithgareddau grŵp a gweithgareddau un i un a gwelsom rywfaint o dystiolaeth mewn cofnodion bod gweithgareddau'n cael eu cynnal. Ni welwyd unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd yn ystod yr arolygiad, ac roedd y bobl naill ai'n eistedd yn un o'r lolfeydd neu yn eu hystafelloedd gwely. Gwelsom y cynllunydd gweithgareddau misol ar gyfer mis Gorffennaf yn ystafelloedd gwely'r bobl. Ymysg y gweithgareddau arferol mae ymarferion cadair, trefnu blodau, addurno cacennau a sesiynau un i un. Mae'r tîm rheoli yn mynd i'r afael â chofnodion gweithgareddau. Mae croeso i ymwelwyr a gallant dreulio'r diwrnod gyda'u perthnasau neu eu ffrindiau os byddant am wneud hynny.

Clywsom y staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y bobl sy'n cael cymorth wrthym *“Very good in every way, food good and I have everything I want. Lovely and warm, the food is good.”*

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r staff gofal yn defnyddio ap digidol ar ddyfeisiau symudol y gwasanaeth i storio'r holl ddogfennaeth bersonol am bobl. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau personol ac asesiadau risg sy'n rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl.

Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl diolch i'r gofal a ddarperir, atgyfeiriadau amserol at weithwyr iechyd proffesiynol, a threfniadau effeithiol ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt yn ddiogel. Mae'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth yn cael hyfforddiant meddyginiaeth ac mae angen iddynt basio prawf cymhwysedd cyn gallu rhoi meddyginiaeth. Caiff anghenion deietegol y bobl eu hystyried. Dangosodd ein harsylwadau yn ystod y dydd y gweinir prydau bwyd i'r bobl drwy gydol y dydd yn dibynnu ar yr adegau y byddant yn dewis bwyta eu prydau. Gwelsom fyrbrydau, bisgedi a lluniaeth poeth ac oer yn cael eu cynnig drwy gydol y dydd.

Caiff diogelwch y bobl ei gynnal yn dda. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod y staff yn cael hyfforddiant diogelu. Dangosodd y staff gofal eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn gwyno gan nodi na fyddent yn oedi cyn rhoi gwybod i'r tîm rheoli am unrhyw bryderon.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gartrefol ac yn groesawgar. Caiff yr ardaloedd eu haddurno i safon dda ac mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno a'r lloriau yn yr ystafelloedd gwely wedi'u hailosod yn ystod y misoedd diwethaf. Mae pob ardal yn hygyrch i'r bobl ag anawsterau symudedd, ac mae lifft teithwyr a grisiau y gellir eu defnyddio i gyrraedd yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi ar y llawr cyntaf. Mae tir helaeth i'r bobl eistedd yn yr awyr agored os bydd y tywydd yn braf. Mae posteri mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau i'w gweld yn yr ardaloedd cymunedol a'r coridorau. Mae'r tîm rheoli'n mynd i'r afael â'r broses o ailosod y rhain er mwyn gwella llesiant y bobl.

Ar y cyfan, mae gwaith cynnal a chadw'r adeilad o safon dda. Mae'r cofnodion cynnal a chadw'n dangos bod cyfleustodau, cyfarpar a chyfarpar diogelwch tân yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Mae system cloch alw ar waith i'r bobl allu hysbysu'r staff os bydd angen cymorth arnynt, a chaiff hyn ei ymestyn i'r lolfeydd cymunedol. Mae gan y cartref sgôr 5-seren ar gyfer safonau hylendid bwyd. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, sy'n benodol i'w hanghenion cymorth unigol.

Mae'r cartref yn ddiogel, gyda'r staff yn cadarnhau pwy yw pobl cyn iddynt gael mynediad. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r adeilad gyda'r diben o gofnodi'r ymweliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith er mwyn gorchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn dilyn systemau a phrosesau darparwr y gwasanaeth er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth i fonitro perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â'i Ddatganiad o Ddiben ac i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal.

Mae'r Datganiad o Ddiben yn disgrifio'n glir at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff ei ddarparu. Mae'r Datganiad o Ddiben ar gael yn Saesneg, gyda threfniadau ar waith i'r ddogfen fod ar gael yn Gymraeg. Mae'r tîm rheoli wrthi'n adolygu'r Datganiad o Ddiben i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n cyflogi staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion personol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cofnodion yn dangos bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae proses dethol a fetio gan y darparwyr, gan gynnwys proses ar gyfer cael geirdaon. Mae'r staff yn cael cymorth i ymgymryd â hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl ac i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cynigir hyfforddiant mewn pynciau gorfodol, gan gynnwys cymorth cyntaf, symud a chodi a chario a diogelu. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael hyfforddiant. Caiff y staff eu goruchwylio, ac mae'r tîm rheoli wrthi'n gweithio tuag at wella amlder y sesiynau goruchwylio a'r arfarniadau blynyddol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. Gwelsom y staff yn siarad â'r bobl yn eu dewis iaith.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/09/2023